**Adroddiad:** Pwyllgor Llywodraeth Gorfforaethol

**Dyddiad y Cyfarfod:** 11 Gorffennaf 2012

**Prif Swyddog:** Alan Smith, Pennaeth Datblygiad a Pherfformiad Busnes

**Ysgrifennydd yr Adroddiad:** Tony Ward, Rheolwr Tîm Datblygiad Corfforaethol

**Teitl:** Swyddfa Archwilio Cymru: Adborth Adolygu Technoleg

---

## 1. Beth mae'r adroddiad yn trafod?

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno adborth o Swyddfa Archwilio Cymru (SAC/WAO) am adolygiad technoleg yng Nghyngor Sir Dinbych.

## 2. Beth yw pwrpas llunio'r adroddiad hwn?

Darparu gwybodaeth ynglŷn ag Adborth Adolygu Technoleg (gweler Atodiad A i'r adroddiad hwn).

## 3. Beth oedd yr Argymhellion?

Argymhellwyd bod angen i'r Pwyllgor nodi casgliadau'r adolygiad a thrafod y trefniadau er mwyn ymateb i unrhyw faterion pwysig.

## 4. Manylion yr Adroddiad.

Bwriad yr adolygiad yw ateb y cwestiwn: "A yw trefniadau'r cyngor ar gyfer datblygu, defnyddio a chefnogi technoleg yn debygol o gefnogi datblygiad parhaus?" Daeth y SAC/WAO i'r casgliad bod: "Cynlluniau'r Cyngor ar gyfer datblygiadau, gan ddefnyddio a chefnogi technoleg yn debygol o gefnogi datblygiad pan fyddai'r Cyngor yn cryfhau ei rheolaeth TGCh ac yn cyflawni Rhan 1 o'r strategaeth yn llwyddiannus". Mae manylion pellach o gasgliadau a chynigion ar gyfer y datblygiad i'w gweld yn yr adroddiad amgaeedig.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu ar y blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r adroddiad hwn ar gyfer gwybodaeth, yn hytrach nag ar gyfer penderfyniadau.

## 6. Faint fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Y prif gasgliadau o'r adolygiad oedd bod gallu'r cyngor u gefnogi datblygiad trwy dechnoleg yn ddibynnol ar gyflawni Rhan 1 o'r strategaeth TGCh yn llwyddiannus. Nid oes i'r casgliad hwn oblygiadau fel Rhan 1 o'r Strategaeth TGCh, ac mae adroddiad glo yn cael ei drafftio ar hyn o bryd.

## 7. Pa ymgynghoriadau a wnaed?

Mae drafftiau o'r Adolygiad Adborth Technoleg wedi trafod gyda'r swyddogion priodol, gan gynnwys Rheolwr Trawsnewidiad Busnes a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol cyn creu'r adroddiad terfynol.

## 8. Pa risgiau sy'n bodoli, ac oes modd eu lleihau?

Mae'r gofrestr Gorfforaethol yn cynnwys "y risg nad yw strategaeth TGCh yn caniatáu datblygiad a chefnogi newid". Mae'r gweithredoedd sy'n gallu lleihau'r lefel o risg sydd ar ôl yw (ar yr adeg olaf yn yr adolygiad):

- Trosglwyddo Rhan I o strategaeth TGCh (bellach wedi'i orffen); a
- Cytuno (ac yna trosglwyddo) Rhan II o'r strategaeth TGCh.

## 9. Y gallu i wneud penderfyniadau

Mae'r adroddiad hwn ar gyfer gwybodaeth, yn hytrach nag ar gyfer penderfyniadau.